# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Hydref 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar weithredu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws portffolios y Gweinidogion yn Nyffryn Clwyd ers mis Mai 2003. (WAQ38663)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl a fynychodd berfformiadau Opera Cenedlaethol Cymru yn 2002-3, 2001-2, 2000-1 a 1999-2000. (WAQ38686)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Sut wnaeth y Gweinidog sicrhau cystadleuaeth ddigonol wrth ddiogelu rhestr fer briodol ar gyfer swydd Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ38667)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar delerau contract Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru yng ngoleuni graddfa amser fer y swydd. (WAQ38668)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar delerau ac amodau penodiad Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ38669)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa broses a ddilynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth benodi Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ38670)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa ohebiaeth, yn ysgrifenedig neu fel arall, a fu rhwng y Gweinidog neu unrhyw un o swyddogion y Cynulliad ag aelodau bwrdd Awdurdod Datblygu Cymru mewn cysylltiad â phenodi Prif Weithredwr yr Awdurdod. (WAQ38671)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa rôl chwaraeodd y Gweinidog, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu eu swyddogion, wrth benodi Prif Swyddog Gweithredol newydd Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ38672)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y cafodd Egwyddorion Nolan eu cymhwyso wrth benodi Prif Weithredwr Awdurdod Datblygu Cymru yn ddiweddar yn wyneb y ffaith bod y Prif Weithredwr yn dod yn aelod o'r bwrdd. (WAQ38673)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod Egwyddorion Nolan wedi'u mabwysiadu a'u dilyn o ran penodi Prif Swyddog Gweithredol Awdurdod Datblygu Cymru. (WAQ38674)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** Pa broses a ddilynwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru wrth benodi Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod. (WAQ38675)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Chyngor Caerdydd ynghylch ariannu Ffordd Gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd. (WAQ38677)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae gwaith wedi'i amserlennu i ddechrau ar gyswllt Dyffryn Ffordd Ddosbarthu De Casnewydd. (WAQ38678)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnal asesiadau diogelwch ar unrhyw ffordd yn y Canolbarth yn ystod y chwe mis nesaf. (WAQ38679)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i wella'r A479 rhwng Talgarth a Chrucywel. (WAQ38680)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol oes*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn ei hymweliad â Seland Newydd yn ystod Awst/Medi 2004, gan gynnwys nifer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a staff arall a aeth yn ei chwmni. (WAQ38681)

**Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y Cwricwlwm Cymreig. (WAQ38684)

**Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Bagloriaeth Cymru. (WAQ38685)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag apêl Arch Noa ynghylch ariannu hosbis plant newydd i Gymru. (WAQ38676)

**Sandy Mewies (Delyn):** Pa gynnydd y mae'r Gweinidog wedi'i wneud wrth alw ynghyd yr uwchgynhadledd o Ofalwyr a phartneriaid cysylltiedig fel y nodwyd yn yr ymateb i'r Ddadl Fer ar 16 Mehefin 2004. (WAQ38682)

**Mike German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau y mae'n eu cymryd i sicrhau bod yr achos busnes terfynol ar gyfer y cyfleuster Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd ym Mynwy yn derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog erbyn 30/11/04. (WAQ38683)

## *Gofyn i gynrychiolydd Pwyllgor y Ty*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint y mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad wedi'i wario ar hysbysebu yn y Western Mail bob blwyddyn oddi ar 1999. (WAQ38665)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Faint y mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad wedi'i wario ar hysbysebu mewn papurau newydd ac eithrio'r Western Mail bob blwyddyn oddi ar 1999. (WAQ38666)